

Gwneud Cymru yn hygyrch

Llinell Gyntafs

Yn rhy aml, mae cymdeithas yn gosod rhwystrau o flaen pobl anabl, sy'n atal neu'n llesteirio mynediad. Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer ein hymgyrch 'Get on Board', nid oes gan 21 y cant o orsafoedd rheilffordd yng Nghymru fynediad di-ris, ac ar y cyflymdra presennol ni fydd gorsafoedd yn hygyrch tan 2070.¹

Mae gwarchae COVID-19 wedi rhoi i bawb ymdeimlad o'r profiad o fod yn berson anabl heb allu defnyddio **trafnidiaeth** gyhoeddus. Yn aml iawn trafndiaeth gyhoeddus hygyrch ac o safon uchel yw'r gwahaniaeth rhwng person anabl yn teimlo'n ynysig ac wedi'u heithrio o fywyd y gymuned, neu gallu mynd allan yn gorfforol i weithio a chymdeithasu.

Yn 2014, amlygodd ein hymgyrch **Home Truths** yr argyfwng tai cuddiedig yng Nghymru: nid oes modd addasu llawer o gartrefi ar gyfer anghenion pobl anabl. A hyd yn oed pan ellir addasu cartrefi, yn rhy aml nid oes gan awdurdodau lleol gofrestri tai hygyrch effeithiol sy'n golygu y gellir gwneud y defnydd gorau o stoc tai cymdeithasol wedi'i addasu, sefyllfa sy'n aml yn golygu fod addasiadau'n cael eu tynnu'n wastraffus allan o dai gan nad ydynt yn diwallu anghenion pobl nad ydynt yn anabl.

Mae **chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol** yn chwarae rhan allweddol yn iechyd a llesiant meddyliol pob un ohonom, gan wella ffitrwydd a chynnig ymdeimlad hollbwysig o gymuned. Ond yn llawer rhy aml, nid yw pobl anabl yn gallu defnyddio'r cyfleusterau. Weithiau mae hynny oherwydd diffyg offer campfa corfforol. Weithiau mae oherwydd ffactorau amgylcheddol (er enghraifft, mae cerddoriaeth uchel yn gallu bod yn anodd i bobl ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth). Weithiau mae oherwydd diffyg dealltwriaeth o bobl anabl, a'r ffaith fod pobl anabl eisiau cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol.

Hefyd, dylai fod gan bobl anabl gymaint o hawl i fynd i dafarnau ag unrhyw berson arall.

Mae diffyg lleoedd chwarae cynhwysol a diogel ar gyfer plant anabl a'u cyfeillion hŷn yn gallu golygu nad yw plant anabl yn ymarfer eu cyrff. Mae diffyg lleoedd cymdeithasol sy'n darparu ar gyfer anghenion hygyrchedd pobl anabl yn destun pryder mawr hefyd.

Prif Ofynion

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- Roi ar waith ddyletswydd gyfreithiol gyfrwymol ar Lywodraeth Cymru i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob taith trên yng Nghymru yn gwbl hygyrch erbyn 2030.
- Sicrhau bod pob llwybr teithio yn cynnwys cyrbau isel wedi'u darparu o leiaf bob 100 metr i atal defnyddwyr cadeiriau olwyn rhag gorfod gwneud amdeithiau hir er mwyn croesi'r ffordd.

¹ Leonard Cheshire. Ymgyrch Trenau i Bawb, 2019. Mae Leonard Cheshire wedi cynnal dadansoddiad data o'r cyfleusterau mynediad di-ris sydd ar gael mewn gorsafoedd rheilffordd yng ngwledydd Prydain. Casglwyd y data hwn trwy ddefnyddio gwybodaeth ar wefan National Rail ym mis Hydref 2019. Cafodd y gorsafoedd eu mapio fesul rhanbarth gan ddefnyddio cronfa ddata ONS National Statistics Postcode Lookup sydd ar gael yn <https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/geographicalproducts/postcodeproducts>

- Ailasesu systemau trafndiaeth (bysiau, tacsis, mesuriadau a ddefnyddir ar gyfer lleoedd parcio cadeiriau olwyn) gyda'r bwriad o gael gwared â rhwystrau i bobl anabl yng Nghymru.
- Sicrhau bod pob tŷ yng Nghymru yn cael eu hadeiladu i fodloni'r holl Safonau Cartrefi Gydol Oes yn llawn.
- Adolygu'r defnydd o gofrestri tai hygyrch i sicrhau bod system effeithiol ac effeithlon ar waith ar gyfer cysylltu anghenion pobl anabl gyda chartrefi wedi'u haddasu.
- Sicrhau bod o leiaf ddeg y cant o'r holl gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i safonau hygyrchedd cadeiriau olwyn llawn.
- Mynnu fod pob cyfleuster hamdden sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn cynnal archwiliad o'u hygyrchedd i bobl anabl.
- Mynnu fod pob campfa sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn cynnwys isafswm o dri darn o offer a addaswyd i'w defnyddio gan bobl anabl (er enghraifft, peiriant seiclo wedi'i addasu).
- Mynnu fod pob campfa sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn cael o leiaf un 'awr dawel' y dydd, pan na fydd cerddoriaeth uchel yn cael ei chwarae.
- Mynnu fod pob pwell nofio sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn gwbl hygyrch ac yn cynnwys teclyn codi a gwelyau newid.
- Cynnwys pobl anabl mewn unrhyw ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ynghylch teithiol llesol, defnyddio canolfannau hamdden awdurdodau lleol.
- Mynnu fod holl staff awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyfleusterau hamdden yn cael hyfforddiant hyderus o ran anabledd.
- Gweithio gyda thafarnau a bwytai i wella pob agwedd ar fynediad i bobl anabl.
- Sicrhau y bydd unrhyw le chwarae cyhoeddus newydd a ddatblygir yn cynnwys arolwg chwarae hygyrch, a gynhelir gydag arbenigydd ar gyswllt neu hygyrchedd anabledd yn bresennol.
- Blaenoriaethu arian ar gyfer lleoedd chwarae hygyrch mewn cymunedau.

Ystadegau

- Mae dros hanner yr oedolion anabl yn y DU yn dweud eu bod wedi wynebu canlyniadau negyddol oherwydd trafndiaeth nad oedd yn darparu ar gyfer eu hanabledd.²
- Dywedodd un rhan o dair (33 y cant) o oedolion anabl yn y DU oedd yn teithio ar drenau y cawsant broblemau oherwydd methiant i ddarparu ar gyfer eu hanabledd.
- Mae bron i un o bob pump (19 y cant) nad ydynt wedi defnyddio trêrn yn dweud mai'r rheswm am hynny oedd nad oedd yn hygyrch i rywun â'u hanabledd neu gyflwr iechyd nhw.
- Nid oes gan 21 y cant o orsafoedd yng Nghymru fynediad di-ris.³
- Mae un daith i'r ysbyty (i rywun sy'n llithro ar y grisiau oherwydd na allant osod lifft grisiau neu reilen gafael) yn costio cyfartaledd o bron i £1,800.⁴
- Mae pob torasgwrn clun yn costio mwy na £28,000 i'r GIG.⁵

² 51 y cant, Comres (2018).

³ Mae Leonard Cheshire wedi cynnal dadansoddiad data o'r cyfleusterau mynediad di-ris sydd ar gael mewn gorsafoedd rheilffordd yng ngwledydd Prydain. Casglwyd y data hwn trwy ddefnyddio gwybodaeth ar wefan National Rail ym mis Hydref 2019. Cafodd y gorsafoedd eu mapio fesul rhanbarth gan ddefnyddio cronfa ddata ONS National Statistics Postcode Lookup sydd ar gael yn <https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/geographicalproducts/postcodeproducts>.

⁴ Ffynhonnell: cronfa ddata cost uned Swyddfa'r Cabinet (2011/12)

⁵ Better outcomes, lower costs: Implications for health and social care budgets of investment in housing adaptations, improvements and equipment: a review of the evidence

- Mae gan bobl sy'n gorfforol weithgar hyd at 50 y cant yn llai o risg o ddatblygu clefydau cronig mawr fel clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes a rhai mathau o gancr.
- Mae gan bobl sy'n gorfforol weithgar 20-30 y cant yn llai o risg o farw'n gynamserol.
- Amcangyfrifwyd fod cost anweithgarwch corfforol yng Nghymru tua £650 miliwn y flwyddyn.⁶
- Mae adeiladu cartref newydd i safonau cartrefi gydol oes yn costio £1100 neu lai.⁷
- Roedd pobl anabl yn 2019 yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain; dim ond 42.4 y cant oedd yn berchen ar eu cartref, o gymharu â 53.2 y cant o bobl nad ydynt yn anabl.⁸
- Roedd pobl a gymerodd ran mewn gweithdai a gynhaliwyd gan Leonard Cheshire yn 2019 yn dweud yn aml naill ai nad oedd gan gampfeydd offer wedi'i addasu ar gyfer anghenion pobl anabl o gwbl, neu nad oedd ganddynt ond un darn o offer (oedd yn golygu i bob pwrpas na allai mwy nac un person anabl fod yn y gampfa ar unrhyw un adeg).
- Dywedodd 24 y cant (507) o ymatebwyr a chanddynt anabled neu gyflwr iechyd y cawsant anhawster defnyddio gwasanaeth neu leoliad yn y flwyddyn ddiwethaf gan nad oedd yn hygyrch i rywun â'u hanabled neu gyflwr iechyd nhw.⁹
- Mae tua 770,000 o blant anabl yn byw yn y DU.¹⁰
- Disgrifiodd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2018, *Is Wales Fairer*, y bwlch iechyd rhwng plant anabl (62.0 y cant) a phlant heb anabledau (87.4 y cant).¹¹

Cyd-destun

Mae pobl anabl yn wynebu nifer o ganlyniadau negyddol oherwydd **trafnidiaeth** anhygyrch, gan gynnwys gorfod colli digwyddiadau cymdeithasol neu apwyntiad ysbyty. Mae diffyg mynediad at dtrafnidiaeth hefyd yn cael effaith negyddol ar fanteisio ar gyfleoedd gyrfaol ac addysgol. Mae pobl anabl yn dweud wrthym fod hynny wedi golygu eu bod wedi gwrthod cynigion swyddi, methu mynd i gyfweiliadau neu beidio derbyn lle ar gwrs hyfforddiant addysgol.¹²

Mae'r prinder o **gartrefi** addas i bobl anabl yng Nghymru yn gorfodi miloedd o bobl i fyw mewn amodau Victorianaidd bob dydd: i ymolchi bob dydd yn eu cegin, i fethu cyrraedd ystafell wely eu plentyn i'w rhoi i gysgu, i ddefnyddio tŷ bach sydd heb ddrws preifatrwydd (oherwydd fel arall fod ffrâm y drws yn rhy gul i gadair olwyn). Gall unrhyw un fynd yn anabl, sy'n golygu fod angen i'n cartrefi fod yn addasadwy: fel y gallant rywbryd yn y dyfodol gynnwys rheiliau gafael ac ystafelloedd gwlyb, lifftiau grisiau neu offer codi. Ond er bod rhai cartrefi yng Nghymru yn gwbl hygyrch, neu'n barod i gael eu haddasu, mae llawer mwy yn anaddas i bobl anabl. Oherwydd nad yw eu cartrefi yn addas i bobl anabl, mae llawer gormod o bobl yn cael eu gorfodi i fynd i gartref gofal neu ysbyty pan fyddai'n well ganddynt barhau i fyw gartref. Mae hyn yn cael effaith ddifrifol ar unigolion ac ar drethdalwyr Cymru yn gyffredinol.

⁶ Llywodraeth Cymru, Creu Cymru Egniól, 2009

⁷ Mae amcangyfrifon yn amrywio. Roedd Asesiad Effaith Ymgynghoriad Adolygiad y CLG ar Safonau Tai yn amcangyfrif fod y gost gyfartalog yn £1,100. Roedd amcangyfrif blaenorol gan y CLG yn barnu fod y gost gyfartalog yn £547. DCLG The Future of the Code for Sustainable Homes, 2007.

⁸ Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, Disability and housing, UK: 2019, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/bulletins/disabilityandhousinguk/2019>

⁹ Ymatebwyr i arolwg YouGov a noddwyd gan Leonard Cheshire ym mis Mehefin 2020. Y lleoliadau a gwasanaethau a restrwyd oedd: atyniadau ymwelwyr (e.e. parc difyrion, acwariwm, sŵ ac ati), bwyty, tafarn/bar, meddygfa, neuadd gyngerdd, canolfan chwaraeon neu ymarfer, sinema, clwb nos, archfarchnad, archfarchnad leol, lleoliad chwaraeon, arall <https://www.leonardcheshire.org/about-us/press-and-media/press-releases/disabled-people-doubt-equality-act-decade>

¹⁰ Improving the Life Chances of disabled People (2005) Uned Strategaeth y Prif Weinidog www.strategy.gov.uk/work_areas/disability

¹¹ Adroddiad 'Is Wales Fairer' yr EHRC (2018)

¹² Canfyddiadau o ymchwil Leonard Cheshire a gynhaliwyd gyda ComRes yn 2018. Er mwyn cael mwy o wybodaeth: <https://www.comresglobal.com/polls/leonard-cheshire-disability-uk-disabled-adults-survey-hate-crime-section/>

Mae **chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol** yn chwarae rhan allweddol yn iechyd a llesiant meddyliol pob un ohonom, gan wella ffitrwydd a chynnyg ymdeimlad hollbwysig o gymuned. Ond yn llawer rhy aml, nid yw pobl anabl yn gallu defnyddio'r cyfleusterau er mwyn gallu gwneud hynny, ac weithiau sesiynau ffisiotherapi yw'r unig weithgaredd y gallant gymryd rhan ynddo. Weithiau mae hynny oherwydd diffyg offer campfa corfforol. Weithiau mae oherwydd ffactorau amgylcheddol. Er enghraifft, mae campfeydd a chanolfannau hamdden yn tueddu chwarae cerddoriaeth uchel, sy'n gallu bod yn anodd i rai pobl ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Ac weithiau gall fod oherwydd diffyg dealltwriaeth o anghenion pobl anabl, a'r ffaith fod pobl anabl eisiau cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol. Yn aml, nid yw pobl anabl yn cael eu cynnwys mewn delweddau mewn ymgyrchoedd gweithgarwch corfforol. Yn aml, nid yw staff yn deall fod eu gweithredoedd i bob pwrpas yn atal pobl anabl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol.

Dylai fod gan bobl anabl gymaint o hawl i fynd i **dafarnau** ag unrhyw berson arall. Ond yn aml iawn nid oes mynediad heb risiau mewn tafarnau; mae byrddau a chadeiriau yn rhy agos at ei gilydd ar gyfer cadeiriau olwyn; mae'r bariau yn rhy uchel i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn allu gafael mewn diodydd yn gyfforddus; mae tai bach anabl yn cael eu defnyddio'n gyfleusterau storio; neu mae staff yn cwestiynu a ddylai pobl anabl gael diod alcoholaidd, gan eu bod yn cysylltu anabledd gydag anaeddfedrwydd.

Mae **gweithgareddau cymdeithasol a chwarae** yn allweddol ar gyfer datblygu sgiliau cymdeithasol, nodweddion arweinyddol a sgiliau rhyngpersonol. Mae cael lleoedd diogel i unigolion anabl ddatblygu a rhyngweithio ag eraill yn hanfodol ar gyfer datblygiad cemegol a ffisegol yr ymennydd,¹³ ac mae hefyd yn llesol i lesiant emosiynol. Mae diffyg lleoedd chwarae cynhwysol a diogel ar gyfer plant anabl a'u cyfeillion hŷn yn gallu golygu nad yw plant anabl yn ymarfer eu cyrff. Caiff y broblem hon ei gwaethygu gan y ffaith nad yw offer ac amgylcheddau chwarae hygyrch ond ar gael yn aml mewn parciau mawr poblogaidd, sy'n golygu fod rhaid i deuluoedd yrru cryn bellterau er mwyn rhoi amser i'w plentyn chwarae.

Gwybodaeth gefndir

Trafnidiaeth

Mae trenau yn aml y tu hwnt i gyrhaeddiad pobl a chanddynt symudedd cyfyngedig a defnyddwyr cadeiriau olwyn oherwydd diffyg:

- Gwybodaeth hygyrch wrth archebu tocynnau neu yn ystod taith.
- Llwybrau hygyrch i gyrraedd a gadael gorsafoedd (gan fod rhai cyrbau is yn rhy serth neu gul i allu eu defnyddio'n ddiogel mewn cadair olwyn neu gerbyd symudedd, rhai cyrbau is yn cael eu cau gan gerbydau wedi parcio o'u blaenau a rhai ohonynt heb gyrbyn is cyfatebol ar yr ochr arall).
- Mynediad di-ris i orsafoedd a threnau ac wrth eu gadael.
- Tai bach hygyrch, sy'n amddifadu pobl anabl rhag yr urddas sylfaenol y mae ganddynt hawl iddo.
- Hyfforddiant staff (cafodd rhai pobl anabl eu hanwybyddu dro ar ôl tro gan staff trafndiaeth adeg oriau brig, gan olygu eu bod yn cyrraedd y gwaith yn hwyr, ac yna'n colli eu swydd o'r herwydd).

¹³ Croke, R. and Williams, J. (2015)

Tai

Er y cymerwyd rhai camau defnyddiol ers ein hymgyrch Home Truths yn 2014, mae prinder mawr o gartrefi y gellid eu haddasu ar gyfer anghenion pobl anabl. Yn rhy aml nid oes gan awdurdodau lleol gofrestri tai hygyrch effeithiol sy'n golygu y gellir gwneud y defnydd gorau o stoc tai cymdeithasol wedi'i addasu, sefyllfa sy'n aml yn golygu fod addasiadau'n cael eu tynnu'n wastraffus allan o dai gan nad ydynt yn diwallu anghenion pobl nad ydynt yn anabl.

Lleoedd chwarae a lleoedd diogel

Nid cael eu heithrio o leoedd chwarae yw'r unig beth sy'n creu anghyfartaledd o ran cyfleoedd, gweithgareddau a bywydau cymdeithasol i bobl anabl yng Nghymru. Mae diffyg llecynnau cymdeithasol sy'n darparu ar gyfer anghenion hygyrchedd pobl anabl yn destun pryder mawr hefyd. Mae symud tuag at ffurfiau mwy gweithredol o deithio a symleiddio llwybrau teithio yn aml yn diystyru darpariaeth ar gyfer pobl anabl. Mae hyn yn gwneud i bobl anabl deimlo'n anniogel mewn rhai lleoedd ac maent yn cael eu gorfodi i chwilio am fathau eraill o weithgareddau cymdeithasol.

